**Dyddiad:** **Dydd Iau, 12 Chwefror 2004**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Rheoliadau i roi Contract newydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar waith**

## Diben

1. Ystyried y rheoliadau sydd eu hangen i roi Contract newydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) ar waith o 1 Ebrill 2004.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Bydd y rheoliadau gaiff eu cyflwyno yn y cyfarfod hwn yn rhoi'r sail deddfwriaethol ar gyfer rhoi'r contract ar waith yng Nghymru ar 1 Ebrill 2004. Mae'r rheoliadau ar ffurf drafft ar y funud, ond ar wahân i'r Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol, ni ragwelir y bydd newidiadau drafftio mawr. Dylech gofio mai drafftiau gwaith ydynt ac nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Gwladol dros Iechyd yn Lloegr na chan Bwyllgor y Meddygon Teulu (Cymru). Fe'ch gwahoddir felly i ystyried a chymeradwyo'r rheoliadau fel ag y maent ar hyn o bryd.

## Y Cefndir

3. Cytunwyd ar y crontract GMC newydd ar gyfer y DU ar 17 Chwefror 2003 ar ôl trafodaethau rhwng Cydffederasiwn y GIG, a weithredai fel asiant y 4 adran iechyd, a Chymdeithas Feddygol Prydain. Cafodd meddygon teulu bleidlais ar y contract a chafodd y contract ei gymeradwyo ar 20 Mehefin gan 80% o'r rheini bleidleisiodd. Bydd y contract newydd yn dod â buddiannau i feddygon teulu, gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill a chleifion.

4. Cafodd y cymalau i roi'r contract ar waith eu cyflwyno i'r Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) ar 3 Gorffennaf. Roedd hi'n ddiwedd Tachwedd ar y Mesur yn cael cydsyniad y Frenhines a dyna ddechrau drafftio'r rheoliadau amrywiol i roi'r contract ar waith. O gofio

maint y dasg o ddiwygio'r sail deddfwriaethol a fydd yn rheoli'r ffordd y bydd y contract newydd yn cael ei redeg, a phrinder yr amser ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r dechrau y bydd amser yn dynn arnom.

5. Rwyf eisoes wedi dweud wrthych efallai y byddai'n rhaid gwneud y rheoliadau trwy'r Weithdrefn Weithredol os na fyddai drafft terfynol y rheoliadau ar gael mewn pryd er, fel y dywedais, byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi hyn. Gwaetha'r modd, dyna sydd wedi digwydd gyda rhai o'r rheoliadau ac fel y cytunwyd yng nghyfarfod Rheolwyr Busnes y Pwyllgor, rwyf wedi cyflwyno drafftiau o'r rheoliadau ichi eu hystyried.

### Materion i'w Hystyried

6. Gofynnir ichi ystyried y Rheoliadau canlynol:-

### 7. Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004

**Y Weithdrefn Weithredol - i ddod i rym 28 Chwefror 2004**

- Mae'r Gorchymyn yn cychwyn y pwerau rheoleiddio yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sydd eu hangen i roi'r contract newydd ar waith.
- Wedi cychwyn y gorchymyn, gellir gwneud y chwech rheoliad sydd wedi'u rhestru isod.

### 8. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (A ddaw i rym ar 1 Mawrth 2004

**Y Weithdrefn Weithredol - i ddod i rym 1 Mawrth 2004**

8.1 Dyma'r prif reoliadau. Byddant yn rhoi fframwaith ar gyfer y contractau GMC newydd ac yn gam at gontractau fydd â'r practis yn sail iddynt. Byddant:-

- yn disgrifio fframwaith y contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan adran 28Q Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ("y Ddeddf").
- yn rhestru'r amodau y bydd yn rhaid i'r contractiwr, yn unol ag adran 28S y Ddeddf, eu bodloni cyn y caiff Bwrdd Iechyd Lleol daro contract gwasanaethau meddygol cyffredinol ag ef.
- yn pennu'r drefn ar gyfer datrys unrhyw anghytundeb cyn arwyddo'r contract, yn unol ag adran 28W(2) y Ddeddf.

- yn pennu'r drefn, yn unol ag adran 28W(3) y Ddeddf, i gontractiwr ennill statws corff gwasanaeth iechyd.

- yn pennu gwaith Pwyllgorau Meddygol Lleol
- yn rhestru'r telerau (yn ogystal â'r rheini a restrir yn y Ddeddf) y bydd yn rhaid i gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol eu cynnwys, hynny yn unol ag adran 28V a W y Ddeddf. Bydd hynny'n cynnwys disgrifiad o'r gwasanaethau y bydd yn rhaid eu darparu i gleifion o dan gontractau gwasanaethau meddygol cyffredinol, yn unol ag adran 28R y Ddeddf.

- Y telerau y mae'n rhaid wrthynt, gan gynnwys telerau'n ymwneud â:

(a) y math o gontract a hyd y contract
(b) y gwasanaethau fydd yn cael eu darparu, y modd y byddant yn cael eu darparu a'r drefn ar gyfer peidio â darparu gwasanaethau ychwanegol a gwasanaethau y tu allan i oriau
(c) rhoi tystysgrifau meddygol
(ch) cyllid, ffïoedd a chodi tâl
(d) cofrestru cleifion, datgofrestru cleifion, cau rhestrau ac aseiniadau
(dd) rhoi presgripsiynau a rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn
(e) yr amodau y bydd yn rhaid i'r rheini sy'n rhoi'r gwasanaethau neu sy'n cael eu cyflogi neu eu defnyddio gan y contractiwr eu bodloni
(f) cofnodion cleifion, darparu gwybodaeth a hawliau cofnodi
(ff) cwynion
(g) y drefn ar gyfer datrys anghydfod a
(ng) y drefn ar gyfer newid contractau a dod â chontractau i ben

8.2 Rhoddais gopi ichi o'r rheoliadau drafft ym mis Tachwedd ac er y bu rhai newidiadau i'r drafft (rwyf wedi'u rhestru isod), bu newidiadau niferus i'r derminoleg gyfreithiol na fyddant yn effeithio ar y cynnwys.

8.3 Newidiadau rhwng drafft mis Tachwedd a'r drafft sydd wedi'i cyflwyno ger eich bron:-

- Mynegai'n disgrifio trefniadau'r rheoliadau;
- Paragraff yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer dod â chontract i ben gan gynnwys canlyniadau (ariannol ac eraill) dod â chontract i ben (gweler Tudalen 27 Rheoliad 25);
- Mwy o fanylion am waith Pwyllgor Meddygol Lleol (gweler tudalen 27 Rheoliad 27) gan gynnwys:-
- dweud wrth y Bwrdd Iechyd Lleol am ganlyniad cwyn a wnaed yn erbyn meddyg teulu a fyddai'n codi pryderon ynghylch effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir o dan y contract;
- gwneud trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad meddygol o feddyg teulu a gwneud adroddiad ysgrifenedig ar allu'r meddyg teulu i ddarparu'r gwasanaethau o dan y contract;
- rhoi'r adroddiad ysgrifenedig i'r meddyg teulu dan sylw, y contractiwr a'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol;

- Paragraff newydd ynghylch archwilio cleifion sy'n 75 oed a mwy sy'n gofyn am archwilio os nad ydynt wedi cael archwiliad yn y deuddeg mis diwethaf (gweler Tudalen 49 Rheoliad 6);
- Mae'r rheoliad ar y 'Telerau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn' wedi'i ymestyn i wneud yn siwr bod Contractwyr sydd â'r hawl i roi cyffuriau ar bresgripsiwn yn gwneud hynny yn unol â'r rheoliadau yn Rheoliad 49, Tudalen 73;
- Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â chontractiwr sy'n cyflogi neu'n defnyddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u hymestyn i wneud yn siwr bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ateb gofynion penodol gan gynnwys profiad a hyfforddiant (gweler Tudalen 76 Rheoliad 57);
- Mae rheoliad newydd wedi'i gynnwys sy'n gofyn i gontractiwr gadw cofrestr o'r holl roddion y bydd yn eu derbyn a chanddynt werth yn ei olwg o fwy na £100. Bydd y gofrestr ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol ei gweld o ofyn amdani (gweler Tudalen 101 Rheoliad 122). Mae'r rheoliad hwn wedi'i gynnwys fel rhan o'r diwygiadau yn sgil achos Shipman;
- Mae Atodlen newydd wedi'i chynnwys ar waith y tu allan i oriau. Mae'n disgrifio'r trefniadau dros dro ar gyfer trosglwyddo ymrwymiadau a rhwymedigaethau mewn perthynas â rhai gwasanaethau y tu allan i oriau (Tudalen 103 Atodlen 7);
- Cadwch mewn cof bod y rheoliadau ar 'Geisiadau am Wybodaeth gan Fforwm Cleifion' wedi'u tynnu o'r drafft diweddaraf hwn. Nid oes gennym Fforymau Cleifion yng Nghymru ond cynhwyswyd cyfeiriad ato yn y drafft blaenorol am y credwyd y gallai fod yna faterion trawsffiniol. Wedi ystyried y peth a gofyn am farn gyfreithiol, mae'n debyg nad felly y bydd hi, ac o'r herwydd, rydym wedi tynnu'r rheoliadau hyn.

## 9. Gorchymyn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2004

**Y Weithdrefn Weithredol - i ddod i rym 1 Mawrth 2004**

9.1 Mae'r Gorchymyn hwn yn delio â darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â:-

- Hawliadau, a'r amgylchiadau lle gellir arwyddo contract GMC neu gontract diofyn;

- Y trefniadau apelio os na wnaiff Bwrdd Iechyd Lleol daro contract â rhywun am resymau megis bod y person hwnnw wedi'i atal o'r gofrestr feddygol, rhestr feddygol neu restr cyflawnwyr neu lle bo trefniadau dros dro;

- Mae'r Gorchymyn yn delio ag apeliadau 'lleoedd gwag' o dan yr hen drefniadau ac apeliadau yn erbyn Byrddau Iechyd Lleol am beidio ag arwyddo contract GMC;

- Trefniadau ar gyfer parhau am gyfnod dros dro i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion Contractiwr;

- Trefniadau a Gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan gontractau GMC neu gontractau diofyn;

- Trefniadau ariannol mewn cysylltiad â Chontractau Diofyn**.

## 10. Gorchymyn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) (Cymru) 2004

**Y Weithdrefn Weithredol - i ddod i rym 1 Ebrill 2004**

10.1 Dylid nodi mai drafft cynnar iawn yw'r drafft sy'n cael ei gyflwyno ac mae dal llawer o waith i'w wneud arno. Er hynny, mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer:-

- Darpariaethau trosiannol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol;

- Darpariaethau trosiannol ar gyfer Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, sy'n dilyn Contractau Diofyn; a

- Darpariaethau Trosiannol mewn cysylltiad â threfniadau a gwasanaethau allan o oriau.

- Newidiadau o ganlyniad i hynny i reoliadau eraill sydd eto i'w drafftio.

## 11.Rheoliadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Ewyllys Da) (Cymru) 2004

**Y Weithdrefn Weithredol - i ddod i rym 1 Ebrill 2004**

11.1 Gwaetha'r modd, nid oes drafft o'r rheoliadau hyn ar gael ar hyn o bryd ond byddaf yn anfon copi atoch cyn gynted ag y byddant ar gael. Rwyf yn rhagweld y bydd y rheoliadau'n pennu'r rheolau ar gyfer gwerthu practisiau GMC gan ei bod yn anghyfreithlon cynnwys elfen o ewyllys da yn y pris wrth werthu'r busnesau hyn.

## 12. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2004

**Y Weithdrefn Safonol - i ddod i rym ar 1 Ebrill 2004.**

12.1 Cawsoch weld y rheoliadau hyn ym mis Tachwedd hefyd a gallaf gadarnhau mai dim ond mân-newidiadau sydd wedi bod, a rheini'n newidiadau i'r derminoleg gyfreithiol nad ydynt yn effeithio ar y cynnwys.

- Ar hyn o bryd, rhaid i feddygon teulu fod ar restr feddygol neu restr feddygol atodol Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r rheoliadau newydd yn gofyn am greu un rhestr o'r ymarferwyr meddygol sylfaenol ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol.

## 13.Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau GMC) (Rhagnodi Cyffuriau)

**(Cymru) 2004**

**Y Weithdrefn Safonol - i ddod i rym ar 1 Ebrill 2004.**

- Bydd Atodlen 1 y rheoliad uchod yn cymryd lle Atodlen 10 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992. Mae'r Atodlen yn rhestru'r cyffuriau a sylweddau eraill na chaniateir eu rhoi ar bresgripsiwn o dan Wasanaethau Fferyllol y GIG.

- Bydd Atodlen 2 y rheoliadau uchod yn cymryd lle Atodlen 11 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992. Mae'r Atodlen hon yn cyfeirio at gyffuriau a sylweddau eraill y caniateir eu rhoi ar bresgripsiwn ar gyfer triniaeth benodol o dan amgylchiadau penodol yn unig o dan Wasanaethau Fferyllol y GIG.

## Goblygiadau Ariannol

14. Mae'r contract newydd yn darparu lefelau digynsail o fuddsoddi mewn gofal sylfaenol - cynnydd o 33% dros y tair blynedd nesaf. Fe'i ariennir o fewn y gyllideb bresennol a chyllidebau arfaethedig o dan "Contractau Meddygon Teulu" yn Llinell Wariant Taliadau i Gontractwyr.

## Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd

15. Ystyried a chymeradwyo'r rheoliadau yn eu fformat presennol.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt: Claire Cullen, Is-adran Gofal Sylfaenol, Ffôn 029 2082 5684